# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Eithinog**

**Cartref Eithinog Leonard Cheshire**
**Yr Hen Briffordd**
**Bae Colwyn**
**LL28 5YA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Eithinog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Hydref 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal priodol ac ymatebol. Mae'r staff ar gael i roi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl ac y maent ei eisiau. Maent wedi meithrin diwylliant agored sy'n sicrhau bod llesiant y bobl wrth wraidd y penderfyniadau a wneir. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n gadarn, ac mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y cartref yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi â chyfleoedd i ddatblygu eu hunain ymhellach. Mae arferion recriwtio da ar waith. Mae digon o staff yn cael eu cyflogi i dreulio amser un i un gyda'r bobl. Mae'r ddogfennaeth gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.  Mae gan y bobl reolaeth dros yr hyn y maent eisiau ei wneud er mwyn iddynt allu rhoi blaenoriaeth i'r hyn sydd o bwys iddynt. Cânt gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon ac i ddilyn eu diddordebau mewn ffordd gefnogol gyda staff cyfeillgar a brwdfrydig.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn gynnes, ac mae cynlluniau adnewyddu parhaus ar waith. Gall y bobl rannu pryderon a chaiff eu lleisiau eu clywed.

## Llesiant

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Mae cyfleoedd i'r bobl gael eu hysgogi, eu cadw'n brysur, a chael pethau i edrych ymlaen atynt. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u barn. Gall y bobl dderbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn edrych am ffyrdd i ddatblygu'r maes hwn ymhellach. Mae'r bobl yn cael prydau bwyd a diodydd priodol, iach a maethlon. Mae'r prydau bwyd yn cael eu paratoi'n ffres, gan ddefnyddio cynhwysion lleol. Maent yn cael dewis amrywiol o fwyd, a chaiff anghenion llysieuol eu diwallu. Mae'r bobl yn cael dewis a gallant ddewis prydau bwyd eraill os nad ydynt yn hoffi'r hyn sydd ar y fwydlen. Maent yn dilyn eu trefn arferol eu hunain bob dydd, gyda chymorth ac anogaeth gan y tîm o staff.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae polisi diogelu ar waith sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r staff wrth nodi a rhoi gwybod am ddigwyddiadau anffafriol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a chwythu'r chwiban. Mae asesiadau risg yn amlwg yn y ffeiliau personol ac mae adolygiadau rheolaidd gyda gweithwyr iechyd proffesiynol allanol yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r bobl godi unrhyw bryderon. Gall y bobl godi unrhyw bryderon â'r tîm o staff neu'r tîm rheoli. Mae'r rheolwr a'r staff yn ymwybodol y gall unrhyw gyfyngiadau olygu y bydd yr unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid, a gwneir ceisiadau i awdurdodi'r trefniadau amddifadu hyn yn ôl yr angen. Mae gan y rheolwr bolisi drws agored, a dywedodd y staff a'r bobl wrthym ei bod yn hawdd mynd at y tîm rheoli.

Mae'r amgylchedd yn addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r dodrefn yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd wedi'u personoli ag eitemau personol pob unigolyn, lluniau ac eitemau eraill y maent yn eu mwynhau. Mae'r amgylchedd ac ystafelloedd y bobl yn daclus a chaiff unrhyw gyfarpar ei storio'n ddiogel. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd a'i gynnal a'i gadw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel. Gall y bobl eistedd yn yr awyr agored a mwynhau'r ardd, y bywyd gwyllt a chefn gwlad os byddant am wneud hynny.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod gwybodaeth a gesglir gan amrywiaeth o ffynonellau yn cael ei hystyried cyn penderfynu a yw'r cartref yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae'n cyfuno'r wybodaeth hon â chanlyniadau asesiadau risg unigol er mwyn ysgrifennu cynlluniau personol ar gyfer anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r cynlluniau hyn yn fanwl ac yn pwysleisio'r hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain yn ogystal â'r cymorth sydd ei angen arnynt gan y staff gofal. Ymgynghorir â'r bobl a'u teuluoedd ar eu cynlluniau personol, a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn cwrdd â'r preswylydd a'i deulu ac yn trafod ei nodau a'i ddyheadau ac wedyn rhoddir cynllun ar waith er mwyn cyflawni'r nodau hynny. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn rheoli risgiau i ddiogelwch a llesiant y bobl ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth yn y ffordd leiaf cyfyngol.

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Nododd y bobl eu bod yn fodlon iawn ar lefel ac ansawdd y gofal y maent yn ei gael. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff am eu gwaith caled ac nid oedd ganddynt unrhyw gwynion. Gwelsom y staff yn trin y bobl â pharch, empathi, a charedigrwydd. Roedd y staff yn ystyriol ac roeddent yn rhoi cymorth agos atoch i'r bobl yr oedd angen cymorth arnynt. Gwelsom aelodau o'r staff hefyd yn cynnwys y bobl mewn sgyrsiau ac yn chwerthin ac yn cael hwyl gyda'r bobl mewn modd parchus a chyfeillgar. Mae'r ddogfennaeth gofal yn drylwyr, yn gadarn ac yn adlewyrchu'r person sy'n cael gofal. Darperir gweithgareddau fel celf a chrefft, ac mae'r bobl yn edrych ymlaen at y barbeciw ac at gael gwneud crefftau Calan Gaeaf. Ymgynghorir â'r bobl i gael gwybod beth yr hoffent ei wneud a gallant nodi eu hawgrymiadau ar nodyn 'post it' ar fwrdd y preswylwyr.

Cynigir prydau bwyd iach a maethlon i'r bobl. Gall y bobl ddewis o fwydlen amrywiol, sy'n cynnwys dewisiadau llysieuol a fegan, a dewisiadau sy'n diwallu anghenion deietegol arbenigol eraill. Caiff gofynion deietegol arbenigol eu monitro'n gadarn gan aelodau hyfforddedig o staff y gegin ac uwch-aelodau o staff er mwyn sicrhau bod trwch y bwyd yn briodol i'r unigolyn. Gwnaethom arsylwi ar ginio yn cael ei weini yn y cartref a nodwyd gennym ei fod yn achlysur tawel a hamddenol. Roedd y bwyd yn edrych yn flasus ac roedd digon ohono. Roedd y bobl yn canmol y dewis o brydau a'u hansawdd. Roedd rhai pobl yn eistedd wrth y bwrdd bwyta, ac roedd rhai yn dewis aros yn eu hystafelloedd. Cafodd pawb eu gweini a'u cefnogi yn unol â'u hanghenion mewn modd amserol ac urddasol.

Mae gan y gwasanaeth systemau trefnus ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ac ar dymheredd priodol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael y meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer yn gyson. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n addas ac yn gymwys cyn rhoi unrhyw feddyginiaethau. Mae gwiriadau stoc rheolaidd yn golygu yr ymdrinnir ag

unrhyw faterion yn gyflym. Caiff archwiliadau mewnol eu cwblhau bob mis, a chynhaliodd y bwrdd iechyd archwiliad allanol o'r gwasanaeth yn ddiweddar, a oedd yn gadarnhaol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety cartrefol gyda chyfleusterau priodol. Gallant bersonoli eu hystafelloedd eu hunain a gwelsom fod y bobl yn cadw eitemau sydd o bwys iddynt yn agos atynt. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith yn y cartref. Lle y bo'n briodol, mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau bod y bobl yn gallu cyrraedd cloch alw yn eu hystafelloedd, er mwyn iddynt allu gofyn am gymorth pan fo angen. Mae'r clychau galw yn hawdd i'w defnyddio ac o fewn cyrraedd, a gwelsom y staff gofal yn ymateb i alwadau a larymau o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau o amseroedd ymateb i glychau galw er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Mae canllawiau wedi cael eu gosod yn y coridorau er mwyn helpu'r bobl wrth iddynt symud o gwmpas y cartref, ac mae cyfarpar fel teclynnau codi oddi uchod a switshys golau yn hygyrch yn y cartref.

Mae’r ardal weithgareddau yn fawr iawn, ac yn cynnwys llawer o ddeunyddiau er mwyn gallu ymgysylltu â'r bobl, er enghraifft, gemau, llyfrau, cryno ddisgiau, DVDs, a deunyddiau celf. Mae ardal gegin yn yr ystafell weithgareddau yn galluogi'r bobl i ddatblygu sgiliau cegin. Gall y bobl ddefnyddio ardal fawr yn yr awyr agored pryd bynnag y mynnant ac mae cludiant ar gael er mwyn iddynt fynd allan i'r gymuned ehangach.

Mae'r cartref yn hyrwyddo arferion hylendid a rheoli heintiau da. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae digon o staff wedi'u cyflogi i sicrhau y caiff glendid y cartref ei gynnal. Mae'r staff domestig yn dilyn amserlenni glanhau cyffredinol a glanhau trylwyr i sicrhau bod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn hylan. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â rheoli heintiau. Dywedodd y bobl wrthym fod eu hystafelloedd yn cael eu glanhau bob dydd. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn) i’r cartref ym mis Mehefin 2024.

Mae mesurau ar waith i hyrwyddo iechyd a diogelwch y bobl. Mae camau ar waith i atal dieithriaid rhag dod i mewn i'r adeilad. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch er mwyn nodi a monitro risgiau yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod y cyfarpar arbenigol wedi cael ei wasanaethu o fewn yr amserlenni a argymhellir. Gwelsom fod cemegau ac eitemau niweidiol eraill wedi'u storio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod gwiriadau mewnol ac allanol o'r cyfarpar diogelwch tân ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Caiff ymarferion tân hefyd eu cynnal yn rheolaidd. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPs) ar waith a gellir cael gafael arnynt yn gyflym ac yn hawdd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus bod y darparwr yn monitro ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae archwiliadau yn cael eu cynnal o gynlluniau personol, cwympiadau, pwysau, meddyginiaeth a rheoli heintiau. Mae'r adborth a gafwyd gan y staff yn ystod ein harolygiad yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt, a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am arweinyddiaeth y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn adnabod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro yn ôl yr angen, ac yn llunio adroddiad sicrhau ansawdd bob chwe mis. Mae'r adroddiadau yn fanwl iawn, a chaiff dadansoddiad o'i ganfyddiadau ei gwblhau. Gwelsom eu bod yn cynnwys safbwyntiau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, y staff, cynrychiolwyr a'r gwasanaethau comisiynu.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n addas o ran eu ffitrwydd ac mae digon o staff gofal i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Caiff y staff eu recriwtio a'u fetio'n briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'r gwiriadau gofynnol yn cael eu cwblhau cyn iddynt ddechrau yn eu rôl. Mae aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac mae'r staff yn cael amrywiaeth eang o hyfforddiant gorfodol fel codi a chario, cymorth cyntaf brys, epilepsi a dysffagia. Mae rhaglen hyfforddiant ar waith a dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn gweithio i sicrhau rhagor o hyfforddiant yn y dyfodol. Gwnaeth y staff gadarnhau eu bod yn cael hyfforddiant i'w galluogi i ofalu am y bobl a'u bod yn teimlo y gallant ofyn i'r tîm rheoli am gyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol. Gwelsom fod y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y bobl.  Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb yn gyflym i glychau galw, ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hynny. Gwelsom fod cysylltiad rheolaidd rhyngddynt â'r bobl a'u bod yn rhoi lefel briodol o gymorth iddynt.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a'u bod yn cael cyfarwyddyd clir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol ac y gallant fynd atynt ar unrhyw adeg. Mae cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda'r tîm rheoli yn sicrhau bod y staff yn cael gwybod am newidiadau ac unrhyw ddatblygiadau yn y cartref. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd sy'n canolbwyntio'n gyson ar ddiogelwch a llesiant y bobl. Roedd y cofnodion a'r agendâu a welsom yn cadarnhau bod cyfleoedd i'r staff gyfrannu. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu diwylliant o weithio i wella'r gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas waith dda â gweithwyr proffesiynol ac mae'n ymateb yn dda i unrhyw awgrymiadau. Roedd y tîm rheoli yn gyflym i ymateb i unrhyw gyngor yn ystod yr arolygiad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r staff bob amser yn ymwybodol o'r mathau o ddeiet y mae'r bobl yn eu dilyn, a allai beri risg o niwed i'r bobl. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ymwybodol o'r deietau a ragnodwyd i'r bobl er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/11/2024